DATGANIAD I'R WASG
Dydd Mercher 2 Mehefin 2010

Embargo 5:30 o'r gloch y prynhawn, 26 Mai 2009, neu ddiwedd y cystadlu

DEWI PWS YN FARDD PLANT CYMRU

Ar ddiwedd y cystadlu, tua 5.30 o'r gloch brynhawn heddiw, mewn seremoni ar lwyfan Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion, bydd Twm Morys, Bardd Plant Cymru 2009-2010 yn cyhoeddi mai Bardd Plant Cymru 2010-2011 yw'r bardd lleol, Dewi Pws Morris.

Yn wreiddiol o Dreboeth ger Abertawe, mae Dewi yn enwog am ei dynnu coes, ei ffwlbri a'i bryfocio, ond mae'n enwocach fyth fel actor, canwr, bardd, awdur a chyflwynydd teledu.

Cychwynnodd Dewi ei yrfa fel athro yn Splot, Caerdydd, ond ddwy flynedd yn ddiweddarach, datblygodd ei ddiddordeb ym myd actio yn swydd llawn amser gyda Chwmni Theatr Cymru. Mae wedi ymddangos mewn sawl cyfres deledu ar S4C, gan gynnwys ei bortread o Wayne Harris yn *Pobol y Cwm*, *Hapus Dyrfa*, *Torri Gwynt*, y gyfres deithiol *Byd Pws*, cyfres ddrama i bobl ifanc *Rownd a Rownd* ac yn ddiweddar *Golffio* i S4C.

Cychwynnodd ei yrfa gerddorol yn nechrau'r saithdegau, pan ddaeth yn aelod o fand y Tebot Piws, ac yn ddiweddarach y siwpyr grŵp Cymraeg cyntaf, *Edward H Dafis*. Mae bellach yn aelod o fand lleol o Geredigion, *Sesh Bach*.

Mae talent greadigol Dewi'n parhau fel awdur a bardd ac mae wedi cyhoeddi nifer o lyfrau. Yn eu mysg mae ei hunangofiant *Theleri Thŵp*, *Hiwmor Pws, Fo a Fi (a hi)* a llyfrau plant megis *Dewi, Dwpsi a'r Dreigie*.

Mae bellach yn byw yn Nhresaith, Ceredigion gyda'i wraig, Rhiannon. Mae'n aelod o dîm Talwrn y Beirdd Crannog ac mae'n mwynhau pysgota, golffio a mynd ar wyliau yn ei fan deithiol.

Cynllun ar y cyd rhwng S4C, Cyngor Llyfrau Cymru, Academi, Bwrdd yr Iaith Gymraeg a'r Urdd yw Bardd Plant Cymru. Yn ogystal â Twm, y beirdd sydd wedi derbyn yr anrhydedd yn y gorffennol yw Ifor ap Glyn, Caryl Parry-Jones, Gwyneth Glyn, Mererid Hopwood, Tudur Dylan Jones, Ceri Wyn Jones, Menna Elfyn, Mei Mac a Myrddin ap Dafydd.

Meddai Dewi:

"Wy'n teimlo'n lwcus iawn i gael fy newis i fod yn Fardd Plant Cymru, ond yn becso bydd y plant yn lot fwy clyfar na fi! Wy'n edrych ymlaen yn fawr i weithio 'da plant dros Gymru gyfan, achos wy'n ystyried y'n hunan fel math o Peter Pan (plant sy'n fy nghadw i'n ifanc!) -

ac ar ôl blwyddyn yn y jobyn 'ma falle bydda i wedi tyfu nôl i fod yn ddeuddeg oed unweth 'to!

Diolch am yr anrhydedd,
Y clod, y mawl a'r bri,
'dwi ishe te a brechdan wy
Os ddwai i'ch ysgol chi!"

Diwedd

Am fwy o fanylion cysylltwch â Siân Eleri Davies ar 07976 330360 neu Manon Llwyd ar 07976 330361

Bydd Dewi ar gael yng nghynhadledd y wasg yn yr Annedd Wen ar faes yr Eisteddfod am 2.45 prynhawn yma am sgwrs neu luniau.

Bydd yn ymweld ag ysgolion a grwpiau ieuenctid ledled y wlad yn ystod y flwyddyn - os oes diddordeb gan eich ysgol wahodd Dewi i gynnal gweithdy yn yr ysgol cysylltwch â barddplant@academi.org cyn gynted â phosib. Cofiwch taw'r cyntaf i'r felin fydd hi.

PRESS RELEASE
Wednesday 2 June 2010

Embargo until 5:30pm, 2 June 2010 or the end of today's competing

PROCLAIMING WALES' CHILDREN'S POET LAUREATE 2010-2011

At the end of competitions at about 5.30pm today, Twm Morys, the out-going Wales' Children's Poet Laureate will announce from the stage of the Urdd Gobaith Cymru National Eisteddfod in Ceredigion, that Wales' Children's Poet Laureate 2010-2011 is local bard Dewi Pws Morris.

Famous for his buffoonery, teasing and practical jokes at home and on stage, Dewi, originally from Treboeth in Swansea, is a well-known actor, singer, author, bard and TV presenter.

Dewi began his career as a teacher at Splott, Cardiff, but two years later his acting interest developed into a full time role with *Cwmni Theatr Cymru* (Wales Company Theatre). He has appeared on numerous TV series on S4C, including his portrayal of Wayne Harris on the Welsh soap opera, *Pobol y Cwm*, *Hapus Dyrfa*, *Torri Gwynt*, the travel series *Byd Pws*, children's drama series *Rownd a Rownd* and most recently *Golffio* for S4C.

His accolades as a singer began in the early seventies, when he became a member of Welsh band *Tebot Piws*, and later the first Welsh super group *Edward H Dafis*. He is now a member of a Cardigan fun band, *Sesh Bach*.

His creative talents continue as an author and bard, with many titles to his name, including his autobiography *Theleri Thŵp*, *Hiwmor Pws, Fo a Fi (a hi)* plus children's books such as *Dewi, Dwpsi a'r Dreigie*.

He now lives in Tresaith, Ceredigion with his wife Rhiannon, is a member of the Welsh bardic team, *Crannog* and enjoys fishing, golf and holidays in his camper van.

The Children's Poet Laureate is a joint scheme between S4C, The Welsh Books Council, The Welsh Academy, the Welsh Language Board and Urdd Gobaith Cymru. Its aims are to raise the profile of poetry amongst young people and to encourage them to create and enjoy poetry. As well as Twm, former laureates are Ifor ap Glyn, Caryl Parry-Jones, Gwyneth Glyn, Mererid Hopwood, Tudur Dylan Jones, Ceri Wyn Jones, Menna Elfyn, Mei Mac and Myrddin ap Dafydd.

Dewi Pws Morris says:

“I feel very honoured to be chosen as the Children’s Poet Laureate, but I worry that the children will be far cleverer than me! I’m looking forward to working with children from all over Wales, because I consider myself a bit of a Peter Pan (children keep me young!), and after a year in this role maybe I’ll grow up to be 12 once more!”

Dewi will be at this afternoon's press conference at 2.45pm for interviews and photographs. Schools wishing to invite Dewi to hold a workshop, should email barddplant@academi.org

Ends

Further information: Siân Eleri Davies 07976 330360 or Manon Llwyd 07976 330361

Dewi will be available for photos and interviews in Annedd Wen on the Eisteddfod Maes today at 2.45pm.

Schools wishing to invite Dewi to hold a workshop, should email barddplant@academi.org